MAWRTH 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/



## EISTEDDFOD CYLCH YR URDD

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Nhywyn. Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn mewn amrywiaeth o gystadlaethau.
Diolch yn fawr i'r staff am hyfforddi'r disgyblion ac i'r rhieni am eich cefnogaeth.



**Cor**
2il Cor Ffederasiwn Corris a Pennal

**Llefaru Blwyddyn 2 ac iau (Dysgwyr)**
1af Evie Eyles (Ysgol Dyffryn Dulas)
2il Max Thomas (Ysgol Dyffryn Dulas)

**Llefaru Blwyddyn 3 a 4 (Dysgwyr)**
1af Elsie Eyles (Ysgol Dyffryn Dulas)

**Llefaru Blwyddyn 5 a 6**
1af Anya Crockford (Ysgol Dyffryn Dulas)

**Grwp Llefaru Blwyddyn 6 ac iau**
1af Grwp Dyffryn Dulas



**Unawd Gitar Bl6 ac iau**
2il Anya Crockford (Ysgol Dyffryn Dulas)
3ydd Gruff Jones (Ysgol Dyffryn Dulas)

**Unawd Piano Bl6 ac iau**
3ydd Anya Crockford (Ysgol Dyffryn Dulas)

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## GORYMDAITH DYDD GWYL DEWI

Ar Dydd Gwener 27ain o Chwefror, aethon ni ac ysgolion y dalgylch i Dywyn ar gyfer Gorymdaith Dydd Gwyl Dewi. Roeddem yn canu 'Mae Hen Wlad Fy Nhadau' a 'Daw hyfryd fis' yn ysgol Pen y Bryn. Roedd pawb yn chwifio baneri ar hyd y prom a cawsom ddisgo gwych gyda cerddoriaeth Cymraeg i orffen y diwrnod.
Ysgrifennwyd gan Anya Crockford








## DIOGELWCH Y RHEILFFORDD



Mwynhaodd disgyblion Dosbarth 7-11 gyflwyniad gan Kelly o Drafnidiaeth Cymru o Network Rail. Roedd y cyflwyniad yn addysgiadol iawn a cyflwynwyd mewn ffordd hwyliog bwysigrwydd diogelwch ar y rheilffordd.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# DATHLU DYDD GWYL DEWI









Bu disgyblion ac aelodau staff yr ysgol yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda diwrnod llawn balchder Cymreig. Roedd yr ysgol yn lliwgar iawn gyda'r plant yn gwisgo dillad traddodiadol Cymreig, chrysau rygbi Cymru a dillad coch i nodi'r achlysur.
Bu'r dosbarthiadau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau coginio yn ystod y bore a dysgu am fywyd a neges Sant Dewi. Cafwyd perfformiadau yn ystod y prynhawn gan rai o'r disgyblion oedd yn cystadlu yn yr Urdd, gan ychwanegu at hwyl yr achlysur.







# EISTEDDFOD LLANEGRYN

Llongyfarchiadau mawr i Grace Hussein ar ei llwyddiant yn ennill y gadair am eu gwaith ysgrifennu Cymraeg yn Eisteddfod Llanegryn yn ddiweddar. Gan nad oedd Grace yn gallu mynychu'r Eisteddfod daeth aelodau o Bwyllgor yr Eisteddfod i'r ysgol I gyflwyno'r gadair a'r gwobr ariannol i Grace.





# DIWRNOD Y LLYFR

Roedd pawb wedi dod i'r ysgol fel eu hoff gymeriadau o amrywiol lyfrau ar Fawrth 5ed. Cafwyd diwrnod llawn hwyl yn edrych ar fathau gwahanol o lyfrau a heriau darllen fel darllen ar un goes, darllen yn yr awyr iach, darllen cerddi a darllen gyda'r plant bach. Roedd yn ddiwrnod i ddiolch a gwerthfawrogi llyfrau



## CINIO TSEINIAIDD



Cawsom ginio Tseiniaidd blasus iawn wedi'i baratoi'n ofalus gan Mrs Jones. Diolch yn fawr i Arlwyo Gwynedd am gynllunio bwydlenni arbennig ar gyfer diwrnodau fel hyn, gan roi cyfle i'n disgyblion flasu ac mwynhau amrywiaeth eang o fwydydd o wahanol ddiwylliannau. Roedd y pryd yn llwyddiant mawr!

## ATHLETAU SPORTSHALL




Aeth rhai o'r dosbarth mawr i gystadlu yng Nghystadleuaeth Sportshall yn Dolgellau. Roedd llawer o ysgolion yna ac roedd y neuadd chwaraeon yn llawn. Roedd rhaid gwneud llawer o gystadlaethau gwahanol fel ras rhwystrau, taflu o eistedd, taflu gwaywffon a naid hir. Roedd yn llawer o hwyl a sbri.

Ysgrifennwyd gan Gruff Jones ac Elsie Eyles.

## DIWRNOD TROSGLWYDDO





Ar ol bod yn arborofi gyda gwahanol fathau o rocedi yn yr ysgol, cafom ni blant Blwyddyn 6 yna fynd ar prosiect ymhellach gan wneud un roced fawr ar ôl edrych ar ganlyniadau'r arbrawf yn y cynradd. Roedd yn rhaid dewis y roced oedd fwyaf aerodynameg, felly ar ol dylunio a chreu'r roced, cawsom fynd tu allan a pwmpio i adeiladu 'pressure' i weld pa mor bell oedd y rocedi yn trefeillio. Roeddem wedi cael llawer o hwyl a dysgu am wahanol siapiau a sut mae gwahanol siapiau yn cael effaith ar y gwrthiant aer.

Ysgrifennwyd gan Otis Jones


# E - STEDDFOD

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Meithrin a Derbyn)
3ydd Charlie Oak Martin

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Blwyddyn 1 a 2)
3ydd Barney Dent

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Blwyddyn 3 a 4)
3ydd Elain Puw

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Blwyddyn 5 a 6)
1af Grace Hussein




Gwaith grŵp yn ymwneud â Chymreictod (Blwyddyn 1 a 2)
2il Barney, Chloe, Noah, Evie, Efa, Noah a Max Corris

Gwaith grŵp yn ymwneud â Chymreictod (Blwyddyn 5 a 6)
3ydd Corris



Llefaru Unigol (Meithrin a Derbyn)
1af Pegi Jones

Llefaru Unigol (Blwyddyn 1 a 2)
3ydd Max Thomas

Llefaru Unigol (Blwyddyn 3 a 4)
2il Elain Puw

Llefaru Unigol (Blwyddyn 5 a 6)
3ydd Anya Crockford



Grŵp Llefaru
1af Ysgol Dyffryn Dulas

Canu Unigol (Meithrin a Derbyn)
3ydd Pegi Jones

Canu Unigol (Blwyddyn 1 a 2)
3ydd Max Thomas

Canu Unigol (Blwyddyn 3 a 4)
3ydd Gruff Jones

Canu Unigol (Blwyddyn 5 a 6)
1af Grace Hussein



Côr Meithrin – Blwyddyn 2
2il Ysgol Dyffryn Dulas

Côr Blwyddyn 3 – 6
3ydd Ysgol Dyffryn Dulas

Enillydd y Gadair – Grace Hussein

1af Ysgol Llanilar
2il Ysgol Pennal
3ydd Ysgol Dyffryn Dulas

## GWEITHDAI CELF

Llwyddwyd i gael grant o £1500 gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal gweithdai Celf creadigol gyda disgyblion Blwyddyn 3–6.
Rydym wedi bod yn cael sesiynau celf gyda Mari Gwent dros y tymor yn efelychu gwaith Luned Rhys Parri ar y thema Tryweryn. Rydym wedi bod yn defnyddio gwahanol fathau o gyfryngau, bocsys i wneud y cefndir yn 3D, papur sidan, papur brown i fraslunio a rhannu syniadau. Roeddwn i mwynhau peintio a gludo papur sidan arf y nghefndir mwyaf, a rydw i'n edrych ymlaen i weld sut bydd yn edrych wedi gorffen.
Ysgrifennwyd gan
Elsie Eyles.









## THERMOMIX

Mae'r peiriant Thermomix wedi cyrraedd Ysgol Dyffryn Dulas. Rydym yn edrych ymlaen i drio ryseitiau iachus a bod yn greadigol yn ein sesiynau coginio.






# EISTEDDFOD RHANBARTH YR URDD

Llongyfarchiadau i'r disgyblion fu'n cystadlu yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd yn Nolgellau a bu nifer o ddisgyblion y Ffederasiwn yn llwyddiannus iawn eleni.
Bydd Curig Breese, Iestyn Evans, Elsie Eyles a Anya Crockford yn mynd mlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol i Sir Fon i gystadlu yn mis Mai.




1af Anya Crockford- Unawd gitar Blwyddyn 6 ac iau
1af Curig Breese - Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4
1af Elsie Eyles - Llefaru dysgwyr Blwyddyn 3 a 4
1af Iestyn Evans - Unawd Pres Blwyddyn 6 ac iau
2il Grwp Sychan (Melys, Angharad, Curig a Silyn) - Perfformiad o Olygfa Blwyddyn 6 ac iau
2il Jack Windsor-Lewis - Unawd piano Blwyddyn 6 ac iau
3ydd Silyn Breese - Unawd canu Blwyddyn 2 ac iau
3ydd Evie Eyles - Llefaru dysgwyr Blwyddyn 2 ac iau







## GWEITHDY SBECTRWM



Ar 24 o Fawrth 2026, roedd Emily o Sbectrwm wedi dod i sgwrsio hefo Blwyddyn 5 a 6 am beth yw perthynas iach a pwy i ddweud wrth os ti'n poeni am rhywbeth.
Yn y bore gwnaethon ni gawl dychmygol o beth sy'n gwneud perthynas dda. Yn y cawl roedden wedi rhoi rhinweddau fel bod yn garedig, parchu, rhywun rydych yn ymddiried ynddo ac yn caru.
Yna darllenom hanes o Harri Potter a Charlie and the Chocolate Factory a gweld os roedden nhw'n byw mewn cartref iach.
Yn y prynhawn gwnaethon ni drafod beth a phwy sy'n ein helpu a'u rhoi ar dwr jenga, yna meddwl am wahanol broblemau nes oedd y twr yn syrthio. Roedd yn dangos pa mor bwysig yw hi i siarad am ein problemau. Yna gwnaethon i ‘keyring’ i ni gofio does dim problem yn rhy fawr na fach i drafod gyda rhywun rydych yn teimlo’n agos atynt.
Ysgrifennwyd gan Anya Crockford



## DIWRNOD O HWYL DRWY'R GYMRAEG

Ar Ddydd Mercher Mawrth 25ain aeth Blwyddyn 6 i’r ysgol uwchradd eto i gael diwrnod hwyl y Gymraeg. Gawsom sesiwn iwcalele hefo Huwclele, yna aethom i’r Ganolfan Hamdden i chwarae gemau gwahanol yn Gymraeg, ac yna cawsom llawer o hwyl yn canu caneuon Cymraeg fel Yma o Hyd, Rhedeg i Baris a Hei Mr Urdd. Roedd pawb wedi cael hwyl!
Ysgrifennwyd gan Grace Hussein











# NOSON FFASHWN A FFIZ







Diolch i Bwyllgor Ffrindiau Ysgol Dyffryn Dulas a Phwyllgor Clwb ar ol ysgol Corris am drefnu digwyddiad llwyddiannus iawn un nos Wener yn mis Mawrth.
Diolch i Rachel, siop Gweni, Elin Angharad a Ruth, siop RED am arddangos eu nwyddau.
Llwyddwyd i godi £775.10 rhwng yr ysgol a Chlwb ar ol ysgol.

# SIOE NATUR

Cafodd Blwyddyn 6 fynd i Ysgol Uwchradd Tywyn i gael Sioe gan Arad Goch o'r enw Natur. Roedd y drama yn ein dysgu ni sut o ofalu am y byd a'i wneud yn lle gwell i ni gyd fyw. Roeddwn wedi mwynhau yn fawr, wedi dysgu gwersi ond hefyd roedd yn ddoniol iawn!
Ysgrifennwyd gan Talitiu Francois.



# PC SION

Daeth PC Sion i'n gweld ni yn ddiweddar i drafod sut i fod yn ofalus ar dechnoleg. Roeddem wedi dysgu faint oed sydd rhaid bod i gael gwahanol apiau ar ein dyfeisiau clyfar, a beth sy'n beryglus, fel siarad gyda pobl dieithr, gwneud heriau sydd yn gallu bod yn beryglus. Roeddem wedyn yn trafod a ddylai y llywodraeth wahardd apiau fel hyn i blant o dan 16 mlwydd oed, ac rydw i'n cytuno gyda hyn heblaw am 'you tube' achos mae llawer o fideos addysgiadol ar hwnnw, ond bod angen ei reoli.
Ysgrifennwyd gan Rhodri Summerfield.

**MAWRTH 2026**

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## AGOR Y LLYFR







Bore Dydd Gwener ola'r tymor daeth Ceri,  Jane a Rachel atom i adrodd stori'r Pasg. Rydym yn ddiolchgar iawn i criw Agor y Llyfr am ddod atom yn fisol. Mae'r plant hynaf yn mwynhau helpu gyda actio straeon o'r Beibl.

## GWYL HOLI FFUG

Yn ddiweddar, mae disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 wedi bod yn dysgu am Holi, sef gŵyl lliwiau draddodiadol Hindŵaidd. Mae Holi yn dathlu dyfodiad y gwanwyn, buddugoliaeth da dros drwg, ac mae'n amser llawn hwyl.
I gloi'r gwaith, cynhaliwyd Gŵyl Holi ffug yn yr ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor. Bydd yr hwyl yn cynnwys taflu powdr lliw (Gulal) a dŵr - roedd hyn yn llawer o hwyl!!







Pasg Hapus i bawb a diolch am eich cefnogaeth yn ystod y tymor.

